# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

## CYMRAEG

## HAF 2014

© WJEC CBAC Cyf.

RHAGARWEINIAD

Y cynlluniau marcio a ganlyn yw'r rhai a ddefnyddiwyd gan CBAC ar gyfer arholiad Haf 2014 TGAU CYMRAEG.  Penderfynwyd arnynt yn derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad.  Cynhaliwyd y cynadleddau yn fuan ar ôl sefyll y papurau fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth.  Amcan y cynadleddau oedd sicrhau bod y cynlluniau marcio wedi'u dehongli a'u cymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynlluniau marcio hyn.

© WJEC CBAC Cyf.

## Haen Sylfaenol

### ADRAN A

**C.1** (i) 1 marc am nodi:

- bod y canran o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg yn cynyddu 5% erbyn 2011 [1]

(ii) 1 marc yr un am nodi:

- 582,000/20.8% yn 2001
- 562,000/19.0% yn 2011 [2]

(iii) Un marc yr un am nodi:

- Gwynedd
- Ynys Môn [2]

**Cyfanswm marciau cwestiwn 1 = 5 marc**

© WJEC CBAC Cyf.

**C.2** 1 marc am bob ffaith hyd at **18 marc**
Rhaid cyfeirio at bob adran. Dim ond unwaith y dylid gwobrwyo ffeithiau sy'n medru cael eu clustnodi i fwy nag un adran.

| | **Darn Darllen 1– Her i siarad yr iaith tu allan i'r ysgol !** | **Darn Darllen 2 – Gwneud mwy dros y Gymraeg** |
|---|---|---|
| Nifer/canran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg<br><br>**1marc**<br>**✓ n** | • Cyfeiriad at y Cyfrifiad<br>• 19%/562,000 yn siarad Cymraeg yn 2011<br>• 20.8%/582,000 yn siarad Cymraeg yn 2011<br>• Gostyngiad yn nifer y siaradwyr (llai)<br>• Gostyngiad o 20,000 oddi ar 2001<br>• 18.5% yn siarad yr iaith yn 1991<br>• 20.8% yn siarad yr iaith yn 2001<br>• Cynnydd / codi yn 2001 / sefyllfa wedi gwella<br>• Dechrau'r ganrif ddiwethaf – bron i hanner poblogaeth Cymru yn siarad yr iaith<br>• Gwybodaeth am y siroedd (gwaelod y dudalen – 1 marc hyd at 4 – un o bob adran – cynnydd / gostyngiad / canran uchaf / canran isaf) | • Canlyniadau siomedig Cyfrifiad 2011 |
| Problemau a'r her sy'n wynebu'r iaith Gymraeg<br><br>**1marc**<br>**✓p** | • Angen sicrhau (her) bod pobl ifanc yn siarad yr iaith tu allan i'r dosbarth (– her yn ôl y Prif Weinidog/Mr Carwyn Jones).<br>• Pryder y PW fod ei blant ei hun yn siarad Saesneg â'i gilydd ac â'u ffrindiau.<br>• PW yn dweud ei bod yn bwysig fod y llywodraeth yn cydweithio â'r Mentrau Iaith.<br>• Gobaith Llywodraeth Cymru (yn 2003) – cynyddu canran y siaradwyr o 5% erbyn 2011.<br>• Gostyngiad cyson... llai o bobl yn siarad Cymraeg yn gyffredinol | • Cymdeithasu'n electronig trwy gyfrwng y Gymraeg – trydar + neges destun (Her gan Fenter Iaith Sir Fflint).<br>• Denu pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg<br>• Annog plant a rhieni i wrando ar stori Gymraeg |
| Cynlluniau a gweithgaredd au i wella'r sefyllfa<br>**1marc**<br>**✓ c** | • Mae'n bwysig fod y llywodraeth yn cydweithio gyda'r mentrau iaith er mwyn hybu'r defnydd o'r Gymraeg. | • Mentrau Iaith yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned/cynnal gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg<br>• Nifer o fudiadau yn hybu'r Gymraeg<br>• Enghreifftio o leiaf 2 fudiad yn cynnwys 23 Menter Iaith<br>• (Cyfres o) wyliau lleol yn cael eu trefnu gan y Mentrau Iaith<br>• Enwi o leiaf 2 ŵyl i gael un marc<br>• Gŵyl y Gwach + un ffaith<br>• Cymeriad Selog (draig fach felen) – cyflwyno rhaglen radio (gyda stori a chân)<br>• Y wybodaeth yn y 'sêr' – hyfforddiant awyr agored, gwersi Cymraeg... un marc am bob seren<br>• Diwrnod Shwmae – Su'mai –<br>• Dechrau pob sgwrs yn Gymraeg<br>• Cefnogaeth Cerys Matthews/Ben Davies |

2 farc am ymwybyddiaeth o ffurf adroddiad .

**Cyfanswm marciau cwestiwn 2 = 20 marc**

© WJEC CBAC Cyf.

**C.3** Rhoddir **2 farc** am bob pwynt – **½ marc** am enwi nodwedd a **1½ marc** am effeithiolrwydd neu bwrpas gan gynnwys dyfynnu neu enghreifftio pwrpasol – hyd at **12**.

Enwi nodwedd (½ marc) + enghreifftio neu ddyfynnu (neu gyfeirio'n benodol at y nodwedd yn y darn darllen os nad oes modd dyfynnu); (½ marc ) + rhesymu neu drafod effeithiolrwydd (1 marc).

| **Darn Darllen 1 – Her i siarad yr iaith tu allan i'r ysgol !** | **Darn Darllen 2 – Gwneud mwy dros y Gymraeg** |
|---|---|
| (3x2 = 6)<br><br>**bwriad yr awdur**<br>• rhoi gwybodaeth am nifer/canran siaradwyr Cymraeg – canlyniadau'r cyfrifiad<br>• cyflwyno'r hyn ddywedodd Prif Weinidog Cymru a gosod her<br>• cyflwyno gwybodaeth am yr iaith Gymraeg<br><br>**pwy yw'r darllenwyr**<br>• darllenwyr newyddion BBC<br>• pobl â diddordeb yng nghanlyniad y cyfrifiad<br>• pobl â diddordeb yn y Gymraeg<br><br>**y math o iaith**<br>• ffurfiol, safonol, ffeithiol<br><br>**nodweddion arddull**<br>• **ffurf:** adroddiad/erthygl newyddion safle gwe BBC Newyddion<br>• **berfau presennol** e.e. mae<br>• **berfau amser gorffennol** (rhan fwyaf) e.e. roedd, cafodd, dywedodd, bu, ychwanegodd<br>• **berfenwau** e.e. sicrhau, perswadio, ymddangos, hybu<br>• **blynyddoedd** e.e. dyddiad ar frig y dudalen, blynyddoedd y cyfrifiad 2001, 2011, 1991, + 2003 (nod y Llywodraeth)<br>• **enwi llefydd** e.e. Cymru, enwi'r siroedd<br>• **enwi iaith**: Cymraeg, Cymro/Cymraes<br>• **teitl/pennawd:** Her i siarad yr iaith tu allan i'r ysgol!<br>• **Isdeitlau/isbenawdau**: Canlyniadau cyfrifiad 2011<br>• **rhestru**: canlyniadau yn bwyntiau bwled<br>• **cwestiwn:** cwestiynau am y cynnydd a'r gostyngiad (mewn coch)<br>• **enwi pobl**: Mr. Carwyn Jones, y Prif Weinidiog<br>• **niferoedd/ystadegau** (llawer ohonynt) – canrannau – nifer sy'n gallu siarad Cymraeg<br>• **dyddiad** ar y brig – 11 Rhagfyr, 2012 | (3x2 = 6)<br><br>**bwriad yr awdur**<br>• tynnu sylw at weithgareddau'r Mentrau Iaith (rhoi gwybodaeth)<br>• annog pobl i wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg<br><br>**pwy yw'r darllenwyr**<br>• darllenwyr gwefan y Mentrau Iaith/BBC Cymru<br>• pobl â diddordeb yn y Gymraeg<br><br>**y math o iaith**<br>• ffurfiol, safonol, ffeithiol<br>• iaith lafar (safonol) yn y dyfyniadau<br><br>**nodweddion arddull**<br>• **ffurf:** taflen wybodaeth **/** amrywiaeth: **pytiau o** <u>adroddiadau</u>; <u>poster</u> yn cynnwys gwybodaeth am weithgareddau Gŵyl y Gwach; blwch bach ar frig y dudalen – cyflwyno'r sefyllfa<br>• **berfau amser presennol** e.e mae<br>• **berfau amser gorffennol** e.e. dywedodd, bu, roedd, ymwelodd<br>• **berfau gorchmynnol** e.e.defnyddiwch, trydarwch, ewch, anfonwch (iaith berswadiol)<br>• **berfenwau** e.e. clywed, cystadlu, cyflwyno, gwrando<br>• **dyfynnu** – yn y darn 'Her fer...' (Ni cheir enw person)<br>• **blynyddoedd** – dyddiad ar y poster 19/7/12+20+21)<br>• **enwi llefydd** e.e. Cymru, Môn, enwau ar y rhestr o wyliau<br>• **enwi iaith**: Cymraeg<br>• **enwau pobl a bandiau**: ar y poster; enwau pobl (Cerys Matthews, Ben Davies – yn y darn Shwmai...)<br>• **teitl/pennawd:** Gwneud mwy dros y Gymraeg<br>• **Isdeitlau/isbenawdau**: Mentrau Iaith..., Gŵyl y Gwach (ar y poster)<br>• **rhestru**: enwau gwyliau/llefydd, enwau bandiau ayyb ar y poster,<br>• **nifer**: 23 Menter Iaith<br>• **dyddiad (dyddiau)** yn y blwch ar y |

| | |
|---|---|
| (dyddiad yr erthygl/adroddiad)<br>• **ansoddeiriau** (dim ond ychydig ohonynt ) e.e. pwysig, cyson, bach, isaf + uchaf (cymharol)<br><br>**y cyflwyniad**<br>• **logo** – BBC newyddion ( ar frig y dudalen) + logo'r cyfrifiad<br>• **teitl/pennawd** – Her i siarad yr iaith tu allan i'r ysgol!<br>• **is-deitlau/isbenawdau** – Canlyniadau cyfrifiad 2011, Faint o bobl sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru?, Ble mae'r nifer mwyaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru?<br>• **blychau –** blwch / tabl o amgylch canlyniadau'r ddau gyfrifiad<br>• **lliw** – cefndir a logo'r cyfrifiad, lliw yn y blwch, llun liw ar y brig<br>• **print trwm** – teitl + isbenawdau + enwau'r siroedd<br>• **llun** – wyneb + draig goch / fflag/ baner Cymru<br>• **pwyntiau bwled** – rhestru canlyniadau'r siroedd | brig – cyfrifiad 2011 + dyddiau ar y poster, nos Sul a nos Iau, diwedd Hydref<br>• **ansoddeiriau** e.e.hoffus, newydd sbon, draig fach felen a hoffus, arbennig, bythgofiadwy, gwerthfawr<br>• **dywediadau/idiomau** e.e. newydd sbon, Cymru benbaladr<br>• **peth defnydd o'r Saesneg ar y poster** – i bwrpas<br>• **odl** – her fer<br><br>**y cyflwyniad**<br>• **logo** – Menter Iaith Cymru, Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot (ar y poster), logo'r llywodraeth ar y poster, logo'r cymeriad 'Selog'<br>• **teitl/pennawd** – Gwneud mwy dros y Gymraeg<br>• **is-deitl/isbennawd** – Mentrau Iaith Cymru..., Gŵyl y Gwach, Her Fer..., Shwmai-Su'mai<br>• **blychau** – 4/5 (un yn cynnwys poster) / sêr<br>• **lliw** – cefndir y poster, lliwiau gwahanol ar y poster, lliw cefndir logo Mentrau Iaith Cymru, lliwiau dwy seren Mentrau Iaith y Gogledd lliw y cymeriad 'Selog', lliw print y pennawd ar y brig, lliw cefndir blwch HER FER! a Shwmai...<br>• **print trwm** – y pennawd, rhai o'r enwau ar y poster<br>• **dyfyniad** – yn Her Fer Sir Fflint; geiriau Cerys Matthews a Ben Davies<br>• **lluniau** – ar y poster, llun / cartŵn y cymeriad 'Selog', dwy seren Menter Iaith y Gogledd<br>• **rhif ffôn** y Fenter Iaith (ar y poster) rhifau ffôn yn y ddwy seren<br>• **pwyntiau bwled** – rhestr gwyliau<br>• **poster** |

Dyfernir **3 marc** am ansawdd cyffredinol yr ymdriniaeth a thrafod y 2 ddarn ar y cyd.

**Cyfanswm marciau cwestiwn 3 = 15 marc**

Dyfernir **3 marc** am ansawdd cyffredinol y drafodaeth yn cynnwys mynegi barn a thrafod y ddau ddarn ar y cyd (e.e. rhesymau pam mae un o'r darnau/ ffurfiau yn fwy effeithiol na'r llall).

**Ansawdd y drafodaeth (mynegi barn a thrafod y ddau ddarn ar y cyd)**
**3 marc** – mynegi barn a chyd-drafod yn dda
**2 marc** – mynegi barn a chyd-drafod yn eithaf da
**1 marc** – mynegi barn a chyd-drafod yn fras

© WJEC CBAC Cyf.

- **½ marc am  enwi nodwedd. Rhaid dyfynnu neu enghreifftio'n glir er mwyn ennill y marc enwi nodwedd.**
- **O fewn 1 ½ marc  (½ marc am ddyfynnu/ enghreifftio ac yna hyd at 1 marc am drafod effeithiolrwydd neu bwrpas).**
- **Wrth sôn am fwriad yr awdur/ pwy yw'r darllenwyr, mae'n anodd enghreifftio felly rhoddir hyd at 1 ½ marc am esbonio'r pwrpas.**

**Iaith a mynegiant Adran A = 10 marc**
**Marciau yn ôl y disgrifadau canlynol**

| IAITH A MYNEGIANT<br>10 | Marc<br>10 |
|---|---|
| • adnoddau iaith pur dda<br>• arddangos gafael dda ar gystrawen<br>• arddangos gafael dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• arddangos gafael dda ar eirfa<br>• adnabyddiaeth eithaf da o ffurf | 9-10 |
| • adnoddau iaith lled foddhaol<br>• gafael weddol dda ar gystrawen<br>• gafael weddol dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• arddangos gafael eithaf da ar eirfa<br>• ymwybyddiaeth eithaf da o ffurf | 7-8 |
| • peth gafael ar gystrawen<br>• dangos y gallu i sillafu, treiglo, atalnodi a pharagraffu<br>• defnyddio rhai terfyniadau berfau'n gywir<br>• arddangos peth gafael ar eirfa<br>• ymwybyddiaeth fras o ffurf | 6 |
| • defnyddio geirfa a chystrawennau elfennol<br>• ymgais i baragraffu ac atalnodi<br>• sillafu'r rhan fwyaf o eiriau syml yn gywir<br>• terfyniadau rhai berfau'n gywir ar adegau<br>• dangos ymwybyddiaeth o ffurf | 4-5 |
| • ymgais i ddefnyddio iaith a chystrawen elfennol<br>• atalnodi'n gywir ar adegau<br>• sillafu rhai geiriau syml yn gywir<br>• defnyddio terfyniadau rhai berfau syml yn gywir<br>• peth ymwybyddiaeth o ffurf | 2-3 |
| • adnoddau iaith cyfyngedig<br>• ychydig iawn o atalnodi cywir<br>• sillafu rhai geiriau syml yn gywir<br>• defnyddio rhai berfau syml<br>• rhai elfennau o'r ffurf | 0-1 |

**Cyfanswm marciau Adran A = 50 (cynnwys: 40 +iaith a Mynegiant: 10)**

© WJEC CBAC Cyf.

**ADRAN B**

**C.4** Gweler disgrifiadau canlynol ar gyfer asesu Cynnwys a Iaith a Mynegiant
Ffurf gwbl anghywir: haneru marc Iaith a Mynegiant
Camddehongli'r testun: haneru marc y cynnwys ½ i ¾ tudalen - ddim yn waith cyflawn o ran y cynnwys (gweler disgrifiadau isod).

***Marciau yn ôl y disgrifiadau canlynol***

| **Cyfanswm marciau 40** | **Marc 20** | **CREADIGOL 20** | **FFEITHIOL / PERSWADIOL 20** | **IAITH A MYNEGIANT 20** |
|---|---|---|---|---|
| 36-40 | 18-20 | • gwaith eithaf diddorol<br>• ymwybyddiaeth o rai elfennau i greu effaith<br>• gwaith pur drefnus | • cyflwyno gwybodaeth berthnasol a digonol yn eglur<br>• datblygu rhai pwyntiau<br>• gwaith pur drefnus<br>• cyflwyno eglur ac addas i'r pwrpas | • adnoddau iaith pur dda<br>• arddangos gafael dda ar gystrawen<br>• arddangos gafael dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• arddangos gafael dda ar eirfa<br>• adnabyddiaeth eithaf da o ffurf |
| 28-35 | 14 -17 | • gwaith ag ambell gyffyrddiad diddorol<br>• peth ymdrech i ddefnyddio arddull ddiddorol<br>• ymdrech at fod yn drefnus | • cyflwyno ffeithiau digonol<br>• dangos peth ymdrech i ddatblygu pwyntiau<br>• ymdrech i fod yn drefnus<br>• ymdrech i gyflwyno'r wybodaeth yn eglur | • adnoddau iaith lled foddhaol<br>• gafael weddol dda ar gystrawen<br>• gafael weddol dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• arddangos gafael eithaf da ar eirfa<br>• ymwybyddiaeth eithaf da o ffurf |
| 22-27 | 11-13 | • ymdrech at waith diddorol<br>• ymdrech at waith cyflawn | • cyflwyno peth gwybodaeth<br>• ymgais at waith cyflawn ac i gyflwyno eglur | • peth gafael ar gystrawen<br>• dangos y gallu i sillafu, treiglo, atalnodi a pharagraffu<br>• defnyddio rhai terfyniadau berfau'n gywir<br>• arddangos peth gafael ar eirfa<br>• ymwybyddiaeth fras o ffurf |

© WJEC CBAC Cyf.

| Cyfanswm marciau 40 | Marc 20 | CREADIGOL 20 | FFEITHIOL / PERSWADIOL 20 | IAITH A MYNEGIANT 20 |
|---|---|---|---|---|
| 14-21 | 7-10 | • ymdrech i gyflwyno manylion<br>• ymgais at drefn a dilyniant | • cyflwyno gwybodaeth syml yn eithaf eglur<br>• ymgais at drefn a dilyniant | • defnyddio geirfa a chystrawennau elfennol<br>• ymgais i baragraffu ac atalnodi<br>• sillafu'r rhan fwyaf o eiriau syml yn gywir<br>• terfyniadau rhai berfau'n gywir ar adegau<br>• dangos ymwybyddiaeth o ffurf |
| 8-13 | 4-6 | • peth ymgais i gyflwyno manylion<br>• peth dilyniant | • cyflwyno peth gwybodaeth yn syml<br>• peth ymgais i gyflwyno manylion a pherswadio’n eglur<br>• peth dilyniant | • ymgais i ddefnyddio iaith a chystrawen elfennol<br>• atalnodi'n gywir ar adegau<br>• sillafu rhai geiriau syml yn gywir<br>• defnyddio terfyniadau rhai berfau syml yn gywir<br>• peth ymwybyddiaeth o ffurf |
| 0-7 | 0-3 | • cynnwys yn denau iawn | • cynnwys yn denau iawn | • adnoddau iaith cyfyngedig<br>• ychydig iawn o atalnodi cywir<br>• sillafu rhai geiriau syml yn gywir<br>• defnyddio rhai berfau syml<br>• rhai elfennau o'r ffurf |

**Cyfanswm marciau cwestiwn 4 = 40 marc (Cynnwys: 20 + Iaith: 20)**

© WJEC CBAC Cyf.

**ADRAN C**

**C.5 Defnyddio iaith**

Rhoddir **1 marc** am bob cywiriad – **½ marc** am adnabod gwall a **½ marc** am gywiro'r gwall.

| |
|---|
| Cyngerdd Olaf Edward H. Dafis! |
| Mae'n ddeugain mlynedd ers i'r gr**ŵ**p roc poblog**aidd** ddechrau canu. |
| Yn nhref **C**orwen adeg Eisteddfod Genedlaethol 1973 roedd hy**nn**y. |
| **Roedden** nhw wedi creu rhywbeth new**y**dd, sef canu roc yn yr iaith Gymraeg. |
| Roedd pawb yn mwynhau e**u** hunain yn gwrando **arnyn** nhw'n canu. |
| Yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych fe **ff**arwelion nhw am **y** tro olaf. |

**Cyfanswm marciau cwestiwn 5 = 10 marc**

**Cywiriadau:**

1. **grwp** > grŵp ( hirnod / to bach)
2. **poblogaeth** > poblogaidd ( sillafu)
3. **corwen** > Corwen (priflythyren)
4. **hyny** > hynny (sillafu – dyblu n)
5. **Roedd** > roedden nhw / roeddent / roeddynt (ffurf gywir y ferf)
6. **newudd** > newydd (sillafu – u/y)
7. **ei** (hunain) > eu (unigol/lluosog y rhagenw)
8. **ar** (nhw) > arnyn nhw / arnynt (ffurf 3ydd person lluosog yr arddodiad)
9. **farwelion** > ffarwelion (sillafu – f/ff )
10. **yr** > y (ffurf gywir y fannod)

**Marciau'r papur cyfan = 100 (Adran A:50 + Adran B:40 + Adran C: 10)**

© WJEC CBAC Cyf.

## Haen Uwch

## ADRAN A

**C.1** (i) Un marc am nodi:

- Sicrhau bod pobl yn siarad yr iaith y tu allan i'r dosbarth. / Perswadio pobl ifanc sydd wedi dysgu'r iaith ac yn ei defnyddio yn yr ysgol / siarad yr iaith yn y gymuned ac â'u ffrindiau. [1]

(iv) Un marc yr un hyd at ddau farc am nodi:

- 18.5% yn 1991
- 20.8% yn 2001 [2]

(v) Un marc yr un hyd at ddau farc am nodi:

- statws
- addysg
- pwerau i weithredu'n ymarferol dros yr iaith
- newid agwedd at yr iaith [2]

**Cyfanswm marciau cwestiwn 1 = 5 marc**

© WJEC CBAC Cyf.

**C.2** 1 marc am bob ffaith hyd at **13 marc**

Rhaid cyfeirio at bob adran. Dim ond unwaith y dylid gwobrwyo ffeithiau sy'n medru cael eu clustnodi i fwy nag un adran.

| | **Darn darllen 1:** Her i siarad yr iaith tu allan i'r ysgol! | **Darn darllen 2:** Gwneud mwy dros y Gymraeg |
|---|---|---|
| **Nifer / canran y bobl sy'n siarad Cymraeg**<br><br>**1marc**<br>**✓ n** | • Cyfrifiad **2001** – y tro cyntaf i ganran y siaradwyr Cymraeg ddangos cynnydd.<br>• Hyd at 2 ffaith sy'n cyfeirio at ystadegau cyn 2011 – hyd at 2 farc.<br>• Bron hanner y boblogaeth yn siarad Cymraeg ar ddechrau'r ganrif.<br>• Dirywiad (cyson) ers dechrau'r ganrif.<br>• Nod yn 2003 oedd cynyddu'r canran sy'n siarad Cymraeg 5% erbyn 2011<br>• Atal lleihad yn nifer y cymunedau lle mae'r Gymraeg yn iaith fyw bob dydd.<br>• Canlyniadau Cyfrifiad 2011 – gostyngiad yn y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru / llai o dros 20,000 / 20.8% (yn 2001) > 19% (yn 2011).<br>• Iaith ar drai yn y cadarnleoedd.<br>• Cwymp yng Nghaerfyrddin, Ceredigion, Gwynedd, Môn ... (enwi o leiaf 2 i gael un marc) Cynnydd yng Nghaerdydd a Sir Caerffili ... ayyb. (Enwi o leiaf 2 i gael un marc)<br>• 30% o bobl dan 16 yn gallu siarad Cymraeg) | • Canlyniadau siomedig Cyfrifiad 2011 |
| **Pryder am y Gymraeg a'r her sy'n ei hwynebu**<br><br>**1marc**<br>**✓p** | • Prif Weinidog Cymru / Mr Carwyn Jones wedi dweud mai'r her nesaf i'r Gymraeg yw sicrhau bod pobl yn ei siarad y tu allan i'r dosbarth / â'u ffrindiau yn y gymuned<br>• Prif Weinidog Cymru yn nodi fod ei blant ef yn siarad Saesneg â'i gilydd ac â'u ffrindiau.<br>• Pwysig fod y llywodraeth yn cydweithio gyda Mentrau Iaith...<br>• Angen gofyn cwestiynau...<br>• Iaith ar drai yn y cadarnleoedd<br>• Dirywiad cyson...<br>• (Blogiwr) Carl Morris – dylai oedolion gymryd yr iaith o ddifri...<br>• (Blogiwr ) Vaughan Roderick – ddim yn gyfnod i anobeithio a llaesu dwylo... tŵls yn y bocs...?<br>• Llai nag un o bob 10 o bobl ym Merthyr, Blaenau Gwent a Chasnewydd yn siarad Cymraeg<br>• Dim ond 45.6 ym Môn, 38.8 yng Ngheredigion a 32.8 yng Nghaerfyrddin yn siarad, darllen ac ysgrifennu – enwi unrhyw un i gael marc. | • Cyn Brif Weithredwr Bwrdd yr Iaith yn dweud bod gormod o fentrau iaith – (angen uno).<br>• Sian Lewis – Mentrau Iaith wedi datblygu oherwydd awydd pobl leol i weld cynnydd yn y defnydd o'r iaith Gymraeg...<br>• Cymdeithasu'n electronig trwy gyfrwng y Gymraeg (trydaru ac anfon neges destun) (Her gan Fenter Iaith Sir Fflint)<br>• Pwysig fod y Gymraeg yn cael ei defnyddio ym mhob agwedd o'n bywyd. |

© WJEC CBAC Cyf.

| | | |
|---|---|---|
| **Llwyddiant ac ymdrechion i hybu'r iaith**<br><br>**1marc**<br>**✓ ll** | • Ddim yn ddarlun anobeithiol<br>• Enillion pwysig wedi eu gwneud dros y 50 mlynedd diwethaf<br>• Statws, maes addysg, pwerau i weithredu'n ymarferol, newid agwedd (hyd at 2 i gael marc)<br>• Blogiwr Vaughan Roderick – ddim yn gyfnod i anobeithio na llaesu dwylo<br>• Yng Nghaerdydd – dros 4,000 yn fwy o bobl yn medru siarad yr iaith erbyn 2011<br>• Yn Sir Caerffili – 1,000 yn fwy o bobl yn gallu siarad Cymraeg yn 2011 o gymharu â 2001<br>• 30% o bobl dan 16 oed yn gallu siarad Cymraeg | • Nifer o fudiadau yn hybu'r Gymraeg mewn sawl ardal, er enghraifft yr Urdd, Clybiau Ffermwyr Ifanc, Clybiau Ieuenctid a'r Mentrau Iaith (enghreifftio unrhyw ddau i gael un marc).<br>• Mentrau Iaith yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned/ cynnal gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg<br>• Mentrau Iaith yn trefnu gwyliau i ddenu pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau<br>• Rhestr o wyliau a drefnir gan y Mentrau Iaith (enwi 2 ŵyl i gael un marc)<br>- Gŵyl y Gwach + enwi un ffaith o'r poster<br>- Cyn Brif Weithredwr Bwrdd yr Iaith (Meirion Prys Jones) yn cydnabod pwysigrwydd y Mentrau Iaith o ran hyrwyddo'r iaith / Cyn Brif Weithredwr Bwrdd yr Iaith yn dweud bod y Mentrau Iaith yn un o'r datblygiadau pwysicaf dros y chwarter canrif diwethaf o ran hyrwyddo'r iaith<br>- Mentrau Iaith Cymru wedi mynnu parhau'n lleol er mwyn llwyddo<br>- Sian Lewis (o Fenter Iaith Caerdydd) yn dweud ei bod wedi datblygu oherwydd awydd pobl leol i weld cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg...<br>- Hydref 15, 2013 - Diwrnod Shwmae Su'mae?<br>- Llu o weithgareddau ledled Cymru – skype, gweithdai rap efo Aneirin Karadog; beatbocsio efo Mr Phormula, Ed Holden (enwi dau hyd at 2 farc)<br>- Cerys Matthews / Ben Davies yn cefnogi<br>- Dechrau pob sgwrs yn Gymraeg<br>- Rhoi cymorth a chyngor i unigolion / mudiadau / busnesau |

2 farc am ymwybyddiaeth o ffurf adroddiad.

**Cyfanswm marciau cwestiwn 2 = 15 marc**

© WJEC CBAC Cyf.

**C.3** Rhoddir **2 farc** am bob pwynt – **½ marc** am enwi nodwedd a **1½ marc** am effeithiolrwydd neu bwrpas gan gynnwys dyfynnu neu enghreifftio pwrpasol.

| **Darn Darllen 1 –** Her i siarad yr iaith tu allan i'r ysgol! | **Darn Darllen 2 –** Gwneud mwy dros y Gymraeg |
|---|---|
| (4x2 =8) | (4x2 = 8) |
| **bwriad yr awdur**<br>• rhoi gwybodaeth am ganran siaradwyr Cymraeg – y cyfrifiad<br>• cyflwyno'r hyn ddywedodd Prif Weinidog Cymru a gosod her | **bwriad yr awdur**<br>• tynnu sylw at weithgareddau'r Mentrau Iaith<br>• annog pobl i wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg |
| **pwy yw'r darllenwyr**<br>• darllenwyr newyddion BBC<br>• pobl â diddordeb yng nghanlyniad y cyfrifiad<br>• pobl â diddordeb yn y Gymraeg | **pwy yw'r darllenwyr**<br>• darllenwyr gwefan y Mentrau Iaith /BBC Cymru<br>• pobl â diddordeb yn y Gymraeg<br>• pobl sy'n edrych am weithgareddau / gwyliau lleol Cymraeg |
| **y math o iaith**<br>• ffurfiol, safonol, ffeithiol gan fwyaf, ond anffurfiol a llafar yn y blogiau | **y math o iaith**<br>• ffurfiol, safonol, ffeithiol<br>• iaith lafar safonol yn y dyfyniadau<br>• iaith berswadiol (yn Shwmai) e.e. gwnewch eich gorau |
| **nodweddion arddull**<br>• **ffurf:** amrywiaeth: adroddiad/erthygl newyddion ar wefan BBC + blogiau o Golwg<br>• **berfau amser presennol** e.e mae, dywed<br>• **berfau amser gorffennol** e.e.ychwanegodd, dywedodd,<br>• **berfau amser dyfodol** e.e bydd<br>• **berfau amhersonol** e.e. gwelwyd, dylid<br>• **berfenwau** e.e. ymddangos, gostwng<br>• **blwyddyn** – dyddiad ar frig y dudalen, blynyddoedd y cyfrifiad, blynyddoedd o dan 'Canran Siaradwyr Cymraeg'<br>• **enwi llefydd** e.e. Cymru a siroedd<br>• **teitl/pennawd:** Her i siarad...<br>• **Isdeitlau/isbenawdau**: Canran Siaradwyr Cymraeg<br>• **enwau** – Carwyn Jones, y Prif Weinidog; enwau sefydliadau – yr Urdd, Eisteddfod Genedlaethol, y Llywodraeth<br>• **nifer/ystadegau**: canrannau siaradwyr Cymraeg**;** canrannau fesul blwyddyn yn y blwch<br>• **dyddiad (dyddiau)** – dyddiad ar y brig; blynyddoedd a misoedd**;** dyddiad y blogiau yn Golwg 360<br>• **ansoddeiriau** e.e. pwysig, manwl, cyson<br>• **rhestru** – yr ystadegau ar y tabl; canlyniadau yn bwyntiau bwled | **nodweddion arddull**<br>• **ffurf:** amrywiaeth: <u>adroddiadau</u> oddi ar wefan y Mentrau Iaith ar BBC Cymru; <u>poster</u> yn hysbysebu Gŵyl y Gwach; blwch ar y brig – gosod y sefyllfa<br>• **berfau amser presennol** e.e. mae<br>• **berfau amser gorffennol** e.e. dywedodd, bu, roedd, ymwelodd<br>• **berfau amser dyfodol** e.e. bydd<br>• **berfau amhersonol** e.e.trefnwyd<br>• **berfau gorchmynnol e.e.** defnyddiwch, trydarwch, newidiwch, anfonwch, ewch (iaith berswadiol)<br>• **berfenwau** e.e. clywed, cystadlu, cyflwyno, gwrando<br>• **dyfynnu** geiriau Meirion Prys a Sian Lewis<br>• **blwyddyn** – dyddiad ar y poster,<br>• **enwi llefydd** e.e. Cymru; enwau ar y rhestr o wyliau; Aberteifi, Aberystwyth<br>• **enwi bandiau** ayyb ar y poster<br>• **enwau pobl e.e.** Meirion Prys, Sian Lewis, Cerys Matthews, Ben Davies, Aneirin Karadog, Ed Holden ( Mr Phormula)<br>• **enwau gwyliau** e.e**. Gŵyl y Ffin...**<br>• **enwau Mentrau Iaith e.e.** Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot,<br>• **teitl person – Prif Weinidog Cymru, Prif Weithredwr Bwrdd yr Iaith Gymraeg**<br>• **teitl/pennawd:** Gwneud mwy ... |

© WJEC CBAC Cyf.

| | |
|---|---|
| • **cwestiynau**<br>• **trosiad / idiom** ennill tir, iaith ar drai, llaesu dwylo, tŵls yn y bocs<br><br>**y cyflwyniad**<br>• **logo** – y cyfrifiad, BBC newyddion (ar y brig)<br>• **teitl/pennawd** – Her i siarad ...<br>• **is-deitl/isbennawd** - Llai o bobl yn siarad Cymraeg, Casgliadau, Canran Siaradwyr Cymraeg**,** Byd y blogiau<br>• **blychau/tabl** – 1 + blychau bychain yn cynnwys yr ystadegau (tabl) a'r blogiau<br>• **lliw** – cefndir du i'r blogiau + gwyrdd i flychau canran siaradwyr Cymraeg<br>• **print trwm** – y pennawd a'r isbennawd<br>• **print - llawysgrifen** yn y blogiau<br>• **enwau'r blogwyr mewn print coch**<br>• **print gwyn ar gefndir du (blog)**<br>• **ffrâm** ddu i'r blwch mawr<br>• **llun lliw** o wyneb a'r ddraig goch | • **Isdeitlau/isbenawdau** : Mentrau Iaith..., Gŵyl y Gwach (ar y poster)<br>• **ansoddeiriau** e.e. newydd, pwysig/ pwysicaf, amlwg, cyhoeddus, gorau, ifanc<br>• **rhestru**: enwau'r gwyliau; unigolion, mudiadau a busnesau; Urdd, Clybiau Ffermwyr Ifanc, Clybiau Ieuenctid a'r Mentrau Iaith.<br>• **cwestiynau**<br>• **cyflythrennu:**Gŵyl y Gwach, Ffiliffest, Gŵyl Gwydir;<br>• **odl:** her fer<br>• **nifer / rhifau**: 23 Menter Iaith<br>• **dyddiad (dyddiau)** dyddiadau ar y poster<br>• **dywediadau/idiomau** e.e. ar lawr gwlad<br>• **peth defnydd o'r Saesneg ar y poster / gair wedi ei Gymreigeiddio** - beatbocsio<br>**y cyflwyniad**<br>• **logo** – Menter Iaith Cymru + logo'r llywodraeth ar y poster<br>• **teitl/pennawd –** Gwneud mwy...<br>• **is-deitl/isbennawd –** Mentrau Iaith Cymru, Gormod o fentrau iaith yng Nghymru?<br>• **blychau** – 6 ?<br>• **lliw** – cefndir glas golau i 'r blwch ar y brig + y poster, lliwiau gwahanol ar y poster, lliw cefndir logo Mentrau Iaith Cymru; lliw print y pennawd ar y brig<br>• **print trwm** – y pennawd + is deitlau, rhai o'r enwau ar y poster<br>• **dyfyniad** – geiriau Meirion Prys, Sian Lewis<br>• **lluniau** – ar y poster<br>• **rhif ffôn** ar y poster<br>• **poster** |

Dyfernir **4 marc** am ansawdd cyffredinol y drafodaeth yn cynnwys mynegi barn a thrafod y ddau ddarn ar y cyd (e.e. rhesymau pam mae un o'r darnau / ffurfiau yn fwy effeithiol na'r llall).

**Ansawdd y drafodaeth (mynegi barn a chyd-drafod)** (hyd at **4 marc** ar draws y ddau ddarn).

**4 marc –** mynegi barn a thrafod y ddau ddarn yn aeddfed
**3 marc** – mynegi barn a thrafod y ddau ddarn yn dda
**2 farc** - mynegi barn a thrafod y ddau ddarn yn eithaf da
**1 marc** - mynegi barn a thrafod y ddau ddarn yn fras

**Cyfanswm marciau cwestiwn 3 = 20 marc**

- **½ marc am enwi nodwedd. Rhaid dyfynnu neu enghreifftio'n glir er mwyn ennill y marc enwi nodwedd.**
- **O fewn 1 ½ marc (½ marc am ddyfynnu/ enghreifftio ac yna hyd at 1 marc am drafod effeithiolrwydd neu bwrpas).**
- **Wrth sôn am fwriad yr awdur/ pwy yw'r darllenwyr, mae'n anodd enghreifftio felly rhoddir hyd at 1 ½ marc am esbonio'r pwrpas.**

© WJEC CBAC Cyf.

Iaith a Mynegiant Adran A = 10 marc
***Marciau yn ôl y disgrifiadau gradd***

| **IAITH A MYNEGIANT 10** | **Marc 10** |
|---|---|
| • iaith gyfoethog a chyhyrog<br>• defnyddio ystod eang o gystrawennau<br>• gafael sicr iawn ar sillafu, treigladau, atalnodi a pharagraffu a therfyniadau berfau<br>• defnyddio geirfa eang yn hyderus<br>• defnydd hyderus ac effeithiol o ffurf | 9-10 |
| • iaith gyfoethog<br>• defnyddio ystod lawn o gystrawennau<br>• arddangos gafael gadarn ar sillafu, treigladau, atalnodi a pharagraffu a therfyniadau berfau<br>• defnyddio geirfa eang<br>• defnydd hyderus o ffurf | 7-8 |
| • adnoddau iaith da<br>• defnyddio ystod dda o gystrawennau<br>• gafael dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• defnyddio geirfa eithaf eang<br>• dealltwriaeth dda o ffurf | 6 |
| • adnoddau iaith pur dda<br>• arddangos gafael dda ar gystrawen<br>• arddangos gafael dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• arddangos gafael dda ar eirfa<br>• adnabyddiaeth eithaf da o ffurf | 4-5 |
| • adnoddau iaith lled foddhaol<br>• gafael weddol dda ar gystrawen<br>• gafael weddol dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• arddangos gafael eithaf da ar eirfa<br>• ymwybyddiaeth eithaf da o ffurf | 2-3 |
| • peth gafael ar gystrawen<br>• dangos y gallu i sillafu, treiglo, atalnodi a pharagraffu<br>• defnyddio rhai terfyniadau berfau'n gywir<br>• arddangos peth gafael ar eirfa<br>• ymwybyddiaeth fras o ffurf | 0-1 |

**Cyfanswm marciau Adran A = 50 (cynnwys: 40 + Iaith a Mynegiant:10**

© WJEC CBAC Cyf.

## ADRAN B

**C.4** Gweler disgrifiadau gradd Cynnwys a Iaith a Mynegiant
Ffurf gwbl anghywir: haneru marc Iaith a Mynegiant. Camddehongli'r testun: haneru marc y cynnwys ½ i ¾ tudalen - ddim yn waith cyflawn o ran y cynnwys (gweler disgrifiadau isod).

***Marciau yn ôl y disgrifiadau canlynol:***

| Cyfanswm Marciau | Marc 20 | CREADIGOL 20 | FFEITHIOL / PERSWADIOL 20 | IAITH A MYNEGIANT 20 |
|---|---|---|---|---|
| 36-40 | 18-20 | • cyfanwaith creadigol aeddfed a threiddgar<br>• arddull afaelgar<br>• adeiladwaith sicr | • cyflwyno gwybodaeth yn gyflawn<br>• cyflwyno ffeithiau perthnasol yn gryno a chrefftus<br>• cyfanwaith cydlynus<br>• arddull effeithiol iawn ac addas i'r pwrpas | • iaith gyfoethog a chyhyrog<br>• defnyddio ystod eang o gystrawennau<br>• gafael sicr iawn ar sillafu, treigladau, atalnodi a pharagraffu a therfyniadau berfau<br>• defnyddio geirfa eang yn hyderus<br>• defnydd hyderus ac effeithiol o ffurf |
| 28-35 | 14 -17 | • gwaith â dyfnder iddo<br>• arddull aeddfed<br>• adeiladwaith sicr | • cyflwyno gwybodaeth fanwl<br>• cyflwyno ffeithiau perthnasol yn effeithiol a chryno<br>• gwaith cydlynus<br>• arddull effeithiol ac addas i'r pwrpas | • iaith gyfoethog<br>• defnyddio ystod lawn o gystrawennau<br>• arddangos gafael gadarn ar sillafu, treigladau, atalnodi a pharagraffu a therfyniadau berfau<br>• defnyddio geirfa eang<br>• defnydd hyderus o ffurf |
| 22-27 | 11 -13 | • gwaith ag apêl iddo<br>• arddull ddifyr<br>• gwaith trefnus | • cyflwyno gwybodaeth briodol yn eithaf manwl<br>• cyflwyno ffeithiau perthnasol<br>• gwaith trefnus<br>• arddull dda ac addas i'r pwrpas | • adnoddau iaith da<br>• defnyddio ystod dda o gystrawennau<br>• gafael dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• defnyddio geirfa eithaf eang<br>• dealltwriaeth dda o ffurf |

© WJEC CBAC Cyf.

| Cyfanswm Marciau | Marc 20 | CREADIGOL 20 | FFEITHIOL / PERSWADIOL 20 | IAITH A MYNEGIANT 20 |
|---|---|---|---|---|
| 14-21 | 7-10 | • gwaith eithaf diddorol<br>• ymwybyddiaeth o rai elfennau i greu effaith<br>• gwaith pur drefnus | • cyflwyno gwybodaeth berthnasol a digonol yn eglur<br>• datblygu rhai pwyntiau<br>• gwaith pur drefnus<br>• cyflwyno eglur ac addas i'r pwrpas | • adnoddau iaith pur dda<br>• arddangos gafael dda ar gystrawen<br>• arddangos gafael dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• arddangos gafael dda ar eirfa<br>• adnabyddiaeth eithaf da o ffurf |
| 8-13 | 4-6 | • gwaith ag ambell gyffyrddiad diddorol<br>• peth ymdrech i ddefnyddio arddull ddiddorol<br>• ymdrech at fod yn drefnus | • cyflwyno ffeithiau digonol<br>• dangos peth ymdrech i ddatblygu pwyntiau<br>• ymdrech i fod yn drefnus<br>• ymdrech i gyflwyno'r wybodaeth yn eglur | • adnoddau iaith lled foddhaol<br>• gafael weddol dda ar gystrawen<br>• gafael weddol dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• arddangos gafael eithaf da ar eirfa<br>• ymwybyddiaeth eithaf da o ffurf |
| 0-7 | 0-3 | • ymdrech at waith diddorol<br>• ymdrech at waith cyflawn | • cyflwyno peth gwybodaeth<br>• ymgais at waith cyflawn ac i gyflwyno'n eglur | • peth gafael ar gystrawen<br>• dangos y gallu i sillafu, treiglo, atalnodi a pharagraffu<br>• defnyddio rhai terfyniadau berfau'n gywir<br>• arddangos peth gafael ar eirfa<br>• ymwybyddiaeth fras o ffurf |

**Cyfanswm marciau cwestiwn 4 = 40 marc (Cynnwys: 20 + Iaith: 20)**

© WJEC CBAC Cyf.

## ADRAN C

### C.5 Defnyddio iaith

Rhoddir **1 marc** am bob cywiriad – **½ marc** am adnabod gwall a **½ marc** am gywiro'r gwall.

Cyng**h**erdd Olaf Edward H. Dafis yn Eisteddfod Dinbych!

Mae deugain mlynedd ers i'r grŵp pop Edward H. Dafis ganu am **y** tro cyntaf mewn eisteddfod gan chw**y**ldroi'r byd pop Cymraeg.

Nos Fawrth, Awst 8fed 1973 **yn** nhref Corwen adeg yr Eisteddfod Genedlaethol roedd hynny, ac roedd pawb wrth e**u** bodd yn gwrando arnyn nhw.

**Roedden** nhw wedi creu rhywbeth cwbl new**y**dd, sef canu roc Cymraeg. Yn ystod eu blynyddoedd cynnar roedd eu dylanwad yn aruthrol.

"Roedd ein caneuon ni yn myneg**i'r** pryderon oedd am yr iaith a **ch**efn gwlad," meddai Cleif Harpwood, prif **l**eisydd y band.

Cywiriadau:

1. **yr** (tro) **>** y (ffurf gywir y fannod o flaen cytsain)
2. **chwildroi** > chwyldroi (sillafu – y/i)
3. **yn tref** > yn nhref (treiglad trwynol)
4. **ei** (bodd) > eu (ffurf gywir – lluosog – y rhagenw)
5. **roedd** (nhw) > roedden (terfyniad personol y ferf)
6. **newudd** > newydd sillafu – y/u)
7. **mynegir** > mynegi'r (collnod)
8. **cefn** > chefn (treiglad llaes)
9. **gwlad,** > gwlad,"(dyfynodau)
10. **lleisydd**> leisydd (treiglad meddal)

**Cyfanswm marciau cwestiwn 5 = 10 marc**

**Marciau'r papur cyfan = 100 (Adran A:50 + Adran B:40 + Adran C:10)**



© WJEC CBAC Cyf.

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd  CF5 2YX
Ffôn:  029 2026 5000
Ffacs:  029 2057 5994
E-bost:  arholiadau@cbac.co.uk
gwefan:  www.cbac.co.uk

© WJEC CBAC Cyf.